# Mewnforio cynhyrchion wedi’u pobi

Canllawiau ar drwyddedu, labelu, deunydd pecynnu a diogelwch cemegol wrth fewnforio cynhyrchion wedi’u pobi.

Mae'n rhaid i gynhyrchion sydd wedi'u pobi a gaiff eu mewnforio, fel bara, cacennau, bisgedi a chwcis, fodloni'r un safonau a gweithdrefnau hylendid bwyd a chyfansoddiad, neu rai cyfwerth, â bwyd a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr.

Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch i fewnforio'r cynhyrchion hyn.

## Trwyddedau mewnforio

Er nad oes angen trwydded iechyd na hylendid arnoch chi fel arfer i fewnforio bwyd, mae llawer o fwydydd o drydydd gwledydd yn gofyn am drwyddedau at ddibenion masnachu, ac efallai y byddant yn destun cwotâu.

Mae gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ragor o wybodaeth am drwyddedau mewnforio.

## Labelu

Gellir dod o hyd i wybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar GOV.UK.

I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, cysylltwch ag Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer pecynnu bwyd, yn cael eu rheoli gan gyfraith y Deyrnas Unedig (DU) a ddargedwir (retained UK law) ym Mhrydain Fawr.

Mae'r ddeddfwriaeth yn drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio ar gyfer bwyd.

I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Ychwanegion

Gall rhai cynhyrchion wedi'u pobi gynnwys lliwiau bwyd, cyflasynnau (flavourings) neu felysyddion.

Er ei bod yn bosibl bod yr awdurdod bwyd wedi cymeradwyo'r rhain yn y wlad tarddiad, efallai na fydd rhai ohonynt wedi'u cymeradwyo ym Mhrydain Fawr.

I gael gwybodaeth am gyflasynnau, melysyddion, lliwiau a chyffeithyddion (preservatives) bwyd, cysylltwch â'n Tîm Ychwanegion Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

# Diogelwch cemegol

## Halogion

Mae nodyn cyfarwyddyd ar Reoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013, sy'n darparu ar gyfer deddfu a gorfodi cyfraith y DU a ddargedwir sy'n gosod terfynau rheoleiddiol ar gyfer y halogion canlynol:

- nitrad
- mycotocsinau
- metelau
- 3-MCPD
- deuocsinau
- hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAHs)
- acrylamid

## Plaladdwyr

Mae Cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr ar gyfer mewnforion.

## Afflatocsinau

Mae mewnforio rhai bwydydd o drydydd gwledydd penodol, gan gynnwys rhai cynhyrchion wedi'u pobi, yn destun amodau arbennig oherwydd y risg o halogiad gan afflatocsinau. Bydd hyn yn golygu mai drwy borthladdoedd a meysydd awyr penodol yn unig, sy'n Fannau Rheoli ar y Ffin awdurdodedig, y gall y llwythi hyn ddod i mewn i Brydain Fawr, lle byddant yn destun rheolaethau swyddogol.

Mae rhagor o ganllawiau i fusnesau ar mycotocsinau a gwybodaeth arall ar gyfer busnesau ar gael ar ein gwefan.

## Tocsinau ffiwsariwm

Mae deddfwriaeth y DU a ddargedwir sy'n cwmpasu halogiad â thocsinau ffiwsariwm mewn cynhyrchion wedi'u pobi. I gael cyngor ar y ddeddfwriaeth hon a gofynion profi am docsinau ffiwsariwm, cysylltwch â'r Tîm Halogion Cemegol drwy ein ffurflen ar-lein.

# Hysbysebu honiadau maeth ac iechyd

Mae gwybodaeth am hysbysebu honiadau maeth ac iechyd ar fwyd ar gael ar wefan canolfan gwasanaeth cwsmeriaid yr Adran Iechyd.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio'r cynhyrchion organig canlynol o drydedd wlad, mae angen i chi geisio cyngor pellach gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA):

- cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu
- cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid
- deunydd ysgogi llystyfiant
- hadau i'w tyfu o du allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae DEFRA yn darparu gwybodaeth am reoleiddio, safonau a labelu organig yn y DU.

## Cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid

Er bod cacennau, bisgedi a chynhyrchion toes *(pastries)* yn gallu cynnwys symiau bach o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid fel wyau, menyn neu siwet, byddai eu mewnforio hefyd yn dod o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Oherwydd y prosesau a ddefnyddir i baratoi'r cacennau, y bisgedi a'r cynhyrchion toes (cymysgu ac yna coginio), nid ystyrir y rhain fel arfer yn gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Fodd bynnag, os yw'r gacen, y fisged neu'r cynnyrch toes yr ydych chi'n dymuno ei fewnforio yn cynnwys hufen neu hufen-menyn ffres, byddant yn cael eu hystyried i fod yn gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ac felly yn destun rheolau gwahanol, llymach.

Ymhlith gofynion eraill, bydd hyn yn gofyn am ardystiad o'r cynnyrch, bod y safle sy'n cynhyrchu'r cynnyrch wedi’i restru gan y DU a bod y cynnyrch yn destun gwiriadau milfeddygol wrth ddod mewn i Brydain Fawr.

Mae’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn darparu gwybodaeth am y rheolau ar gyfer mewnforio cacennau, bisgedi neu gynhyrchion toes sy'n cynnwys hufen neu hufen-menyn ffres. Mae APHA yn Asiantaeth Weithredol sy'n perthyn i DEFRA.